

Report: Concerns about Highways

Issue	Suggested Actions	Response
<p>Numerous serious concerns were raised about the B5279 from Tal y Cafn to Ty'n-y-Groes. These are as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Whilst speeds are restricted to 40 and 30mph respectively along the road, it was reported that the limits are not being adhered to. For example, residents spoke of how vehicles might be travelling at around 60mph through the 30mph section at night. • Concerns were raised about the 40mph section of road. It was thought that this ought to be reduced. • Congestion. This is being caused by increased usage of the road, and vehicles meeting and being unable to easily pass each other at the narrow sections of the road. For example, residents spoke of how caravans were meeting and then being unable to reverse. Others have provided photographic evidence showing how lorries can 	<p>Go Safe to visit the site</p> <p>Conwy County Borough Council to provide details of the latest work on introducing a passing place along the road and the time frame for introduction.</p> <p>Whilst resources are extremely tight at the Local Authority, I do think it reasonable for the Council to consider whether additional funding should be made available to fund a feasibility study for widening the narrow section of the road. Also, bearing in mind that there are a number of homes along the road, ask whether this could include a walkway for pedestrians.</p> <p>Ask Conwy whether white lines may be introduced down the centre of the road, why a section of the road has been set at 40mph instead of 30mph, and if there is any possibility of this being reduced. Also, establish whether slow signs can be added to the highway, and whether a flashing 30mph sign can be placed beside the road.</p> <p>Enquire whether yellow lines can be placed at the junction of the B5279 and B5106.</p>	<p>Go Safe committed to carrying out enforcement along the B5279.</p> <p>Constable 2979 Medwyn Williams has undertaken a piece of work to look specifically at speeding issues along the B5279 and B5106.</p> <p>The Local Authority has advised that they own land adjacent to the highway where localised widening may be provided, and that contact would be made with adjacent landowners to undertake a topographical survey to establish the exact boundaries of land ownership.</p> <p>The Local Authority does not have enough funds to widen the whole of the narrow section of the B5279. As such, it was decided that it would be a waste of the available funding to spend it on a feasibility study for this.</p> <p>The Local Authority advised that national guidance precludes the provision of centre lines on rural roads less than 5.5m in width.</p> <p>The Local Authority has advised that speed limits are set in accordance with Welsh Government guidance. A review was undertaken in 2014 and the speed limits were lowered to 30mph and 40mph in accordance with the recommendations of the review, based on Welsh Government guidance. There are no current proposals to change the speed limits at the location, but I am continuing to work to change the Welsh Government guidance which is the crux of the problem.</p> <p>The Local Authority advised that the provision of slow road markings will be considered at locations where they will complement any warning signs on the road.</p>

<p>block the whole lane, and have explained to me how numerous vehicles are driving into private driveways to try and overcome the serious road issues here.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Vehicles are driving in the middle of the road. It was suggested that introducing white lines down the centre would assist in encouraging drivers to keep to the appropriate side, despite the road being extremely narrow at parts. • Visibility at the junction with the B5106 • Pedestrians are being put at serious risk when walking along this road • Pollution 	<p>Request that the Local Authority undertake a traffic pollution survey by the properties on the B5279 which see the highest volume of congestion and standstill traffic.</p>	<p>The Local Authority advised that as the B5279 does not have a high collision rate, there are no proposals to introduce flashing 30mph signs at the location.</p> <p>The Local Authority has agreed to consider introducing yellow lines at the junction of the B5279 and B5106 once the new footways proposed to be introduced at the location as part of the planning permission provided to Surf Snowdonia are completed.</p> <p>The Local Authority has agreed to ask the Regulatory Services Department to undertake a traffic pollution survey by the properties on the B5279.</p>
<p>Traffic queuing on the A470 to turn onto the B5279.</p>	<p>Write to the Welsh Government to request a review of the safety of this junction.</p>	<p>Through scrutinising the Minister for Economy and Transport about this matter this term, I have established that whilst the location has not been identified for the next stage of the Welsh Government's Safety and Speed Limit Review, the Minister will continue to review personal injury collisions and other data in establishing the need for future engineering improvements or enforcement.</p>
<p>Trefriw is cut off during floods</p>	<p>I am already liaising with North Wales Police, North Wales Fire and Rescue Service, and the Welsh Ambulance Service NHS Trust about this as part of</p>	<p>Mr Martin Woodford, Chair, Welsh Ambulance Service Trust, responded to me advising:</p> <ul style="list-style-type: none"> • The Trust is a lead member of the North Wales Local Resilience Forum which is made up of multi-agency

	<p>the work I am undertaking with regards to flooding in the Conwy Valley.</p>	<p>partners including blue light services and local government. The Forum undertakes planning for actual and perceived risks in the North Wales area, including flooding.</p> <ul style="list-style-type: none"> • During times of flooding, the Trust's priority is to maintain its emergency response capability to patients, and there is a Specialist Operations Response Team embedded in each geographical region of Wales. Those paramedic personnel are trained to respond to local and catastrophic emergencies and are available 365 days a year. They work with other agencies and can be deployed with Fire and Rescue Service Boat Teams or the Coastguard to access patients in flooded areas. • The Trust can call on support from the Air Ambulance and Coastguard Search and Rescue helicopters to deploy paramedics during flooding. • On 16 March 2019 the Forum established a Forward Command Point, a Tactical (Silver) Coordination Group, and a Strategic (Gold) Coordination Group. Also North Wales Fire and Rescue had a boat crew on standby in case a patient needed to be reached and transported. <p>Mr Richard Fairhead, Assistant Chief Fire Officer, Fire and Rescue Service, responded to me advising:</p> <ul style="list-style-type: none"> • On the 16 March 2019 the multi-agency Tactical Co-ordination Group had identified an access road to the rear of the affected areas along which the Services' narrow access vehicle would have been able to respond. • As Mentioned by the Trust, the Service had a boat crew on standby in Llanrwst which could have been used to rescue people from affected properties or transport firefighters and their equipment if they were required.
--	--	--

		<p>Inspector C Jones, Operational Planning, North Wales Police, responded to me advising:</p> <ul style="list-style-type: none"> • During the flood on 16 March 2019 the villages concerned were not entirely cut-off to services. They were able to gain access using 4x4 vehicles, and he was personally in Trefriw to observe the response at the peak time and was satisfied that in the event of an emergency NWP would direct resources appropriately and could respond. • Like the Trust, he has referred to the Forum and explained the role of NWP. The Police play an additional key role in this as they are the coordinating agency, requiring them to manage Tactical and Strategic Coordinating meetings of responding agencies and provide a space for multi-agency command and control which they facilitate at Police Headquarters. • NWP are also able to coordinate specialist resources such as boats which are operated by the Fire Service, Coastguard and other volunteer agencies such as the RNLI and Search & Rescue, or aircraft operated by the Police, Coastguard or Ambulance. <p>The Local Authority also advised that following the flood, a S19 Flood Investigation Report was being prepared for Trefriw – escape routes in and out of the village.</p>
Road noise pollution in Trefriw	Request a noise survey in the village.	The Local Authority has advised that a noise survey is not considered to represent value for money given that it has limited budgets.
Yellow lines on the B5106 at the northern end of Trefriw. It was explained that a yellow line stops just before a corner – resulting in vehicles being parked at that dangerous point.	Ask the Local Authority to consider extending the yellow line round the corner.	The Local Authority advise that this would be considered as part of the Traffic Regulation Order development for the eastern and rural areas of the County. It is anticipated that if the proposals are taken forward, they would be implemented in the spring of 2020.

<p>Speeding along the B5106 in Trefriw and the risk this causes to pedestrians</p>	<p>Request that Go Safe attend the village more frequently.</p> <p>Enquire whether the Local Authority can provide a sign reminding drivers of the 30mph speed limit in the middle of the village.</p>	<p>Go Safe committed to carrying out enforcement along the B5106.</p> <p>Constable 2979 Medwyn Williams has undertaken a piece of work to look specifically at speeding issues along the B5279 and B5106.</p> <p>The Local Authority advised that the street lighting in the village acts as a reminder that drivers are within a 30mph.</p>
<p>Pedestrians on Pont y Pair, Betws y Coed</p>	<p>I am already cooperating with interested parties and Betws y Coed Community Council with regards to the feasibility of introducing a new pedestrian crossing. Going forward, I will ask the Local Authority to provide an update as to how the plans for such a bridge are progressing.</p>	<p>The Local Authority advised that the provision of a new pedestrian bridge across the river is prohibitively expensive and would not represent a strong business case under the criteria for Welsh Government Transport funding. Therefore, there are no plans to pursue this any further.</p>
<p>Tremorfa Road (from the Groes Inn Hotel and Restaurant to Tal y Cafn bridge). The speed limit has been set at 60mph despite this being a busy single track road providing access to numerous homes, agricultural businesses, and Ty Gobaith.</p>	<p>Ask the Local Authority to review the speed limit and introduce signs warning drivers to travel slowly.</p>	<p>The Local Authority advised that the speed limits are set in accordance with Welsh Government guidance, and that the collision rate on this road does not warrant a change in the speed limit in accordance with the guidance. As such, I am continuing to work to challenge the Welsh Government to change the guidance.</p> <p>Whilst the above is frustrating, I welcome the fact that the Local Authority will consider introducing "Araf / Slow" road markings at locations where unexpected hazards, such as sharp bends, may be encountered along the road.</p>
<p>The B5106 by The Groes Inn Hotel. Questions were raised as to why the speed limit has not been reduced from 60mph at this stretch of road. It was explained that this has been reviewed, but doesn't meet the threshold for change. This is especially</p>	<p>Ask the Local Authority to provide a copy of the last two reviews of the speed limit at this point, and raise concerns with the Welsh Government about the emphasis being placed on the number of accidents instead of risk and near misses. Look to</p>	<p>There has been positive progress in my work to see the Welsh Government change its policy so that we are no longer having to wait for accidents to happen before necessary changes to speed limits are made. In addition to the First Minister advising me that the guidance – Setting Local Speed Limits in Wales – will be reviewed from the Summer of 2020 onwards, I have taken</p>

<p>worrying for residents living at Cwrt Y Groes, Ty'n y Groes.</p>	<p>see the Welsh Government change its policy so that we are no longer having to wait for accidents to happen before necessary changes are provided.</p>	<p>further action to hold the Welsh Government to account on the matter. For example, this term, I scrutinised the Counsel General and asked that the guidance and the need to consider 12 distinct factors, not just the numbers and types of collisions, be legalised so that each Local Authority has to consider every factor fairly.</p> <p>The Local Authority advised that a review of the speed limit was undertaken in 2014 in accordance with Welsh Government requirements and guidance. The review did not recommend any change in the speed limit at the location.</p>
<p>The 30mph speed limit along the B5106 at Tal-y-Bont is not being adhered to.</p>	<p>Request that Go Safe visit the village on a regular basis, and that Conwy Council consider providing signs reminding drivers of the speed limit between Tal-y-Bont and Dolgarrog. Include the possibility of the provision of a mobile 30pmh flashing sign.</p>	<p>Go Safe committed to carrying out enforcement along the B5106.</p> <p>The Local Authority advised that the street lighting on the road acts as a reminder that drivers are within a 30mph speed limit. However, it is thought that the 20mph speed limit outside Ysgol Dolgarrog will aid in controlling speeds along the road.</p>
<p>When approaching the Ye Olde Bull Inn from Tal-y-bont, there is no clear sign advising drivers to turn right to Rowen.</p>	<p>Request a clear sign.</p>	<p>The Local Authority have agreed to consider improving the signage so that it is more prominent.</p>
<p>Lack of strategy for development in the west of the Conwy Valley. For example, it was noted that the foot fall at Surf Snowdonia may already be more than double that estimated originally and that this will probably increase further with the opening of the hotel and continued increasing popularity of the attractions and businesses to the West of the Conwy. Therefore, residents require an explanation as to how the infrastructure is</p>	<p>Ask the Local Authority for a strategic plan for the West of the valley and whether consideration can be given to using Dolgarrog bridge in the long term.</p> <p>Ask the Head of Planning to explain how Policy DP/4 is being considered when handling planning applications – especially the impact from traffic. Correspond with Snowdonia National Park Authority to establish how it is trying to combat</p>	<p>The Local Authority have agreed for this request to be considered by the Regulator Services Department.</p> <p>Snowdonia National Park Authority advised that they would commission a transport and parking study for the north of the Park.</p>

going to develop going forward to accommodate the thousands of extra vehicles travelling to the area annually.	the high volumes of traffic across the National Park and especially here in Aberconwy.	
Wifi and frequency of Llew Jones buses	Enquire whether there should be free wifi on the buses servicing the West of the valley, and if so, whether it is working. Also ask if there is any possibility of increasing the number of buses servicing the area so to help boost accessibility to and use of public transport.	I met with representatives of Llew Jones during the Summer to discuss this and other matters.
Speeding along the roads from The Groes Inn Hotel and Caerhun to Rowen, and the risk this causes to pedestrians, horse riders, and cyclists. For example, a resident spoke of how she was thrown off her horse by Pontwgan.	Request that the Local authority review the speed limit for these roads, and as a minimum provide signs alerting drivers of the presence of horse riders. Obtain clarity from North Wales Police as to whether they record incidents of near misses.	North Wales Police advised that the North Wales Police force Control Room do record an incident reported as a near miss as 'Traffic Other'. More so, if there is a record of an offending vehicle, the matter would be followed up by a member of the local policing team. The Local Authority advised that speed limits are set in accordance with Welsh Government guidance, and that the collision rate does not warrant a change in the speed limit . Whilst I am challenging the Welsh Government on the guidance, I am pleased that the Local Authority have agreed to implement horse warning signs at appropriate location should the presence of horses on the road be sufficiently frequent to meet the criteria for their use.
The new school in Dolgarrog.	Request an explanation of the traffic measure that will help facilitate the movement of vehicles and protect individuals outside the school.	The Local Authority advise that the traffic measures include: <ul style="list-style-type: none"> • 20mph speed limit • Horizontal deflection speed reductions measures on either side of the school • A raised table at the school crossing point
The traffic situation on Pont Fawr. For example, a local business person explained how 50% of the	I have been cooperating with the Local Authority on this matter for a number of months, and	The Local Authority developed proposals for improved signage and road markings for Pont Fawr.

<p>guests comment negatively about the historic crossing.</p>	<p>am expecting the next update in August 2019.</p>	<p>Additionally, I have successfully put pressure on the Welsh Government and the Local Authority to see them cooperate on Pont Fawr, and in particular arrange to meet to discuss the feasibility of introducing an alternative signal controlled solution on the A470.</p>
<p>Roads in Llanrhychwyn and the risk caused by vehicles to pedestrians and horse riders.</p>	<p>Ask for a sign warning of horse riders and pedestrians at the junction of the road leading up to Llanrhychwyn from Gwydir Castle.</p> <p>Also enquire as to whether the local authority can place signs at junctions of roads noting the maximum width the route can accommodate.</p>	<p>The Local Authority have agreed to consider introducing appropriate signage.</p>
<p>Noise pollution from the B5106 at Ty'n-y-Groes</p>	<p>Request a noise survey at Maes Rhun.</p>	<p>The Local Authority advised that a noise survey is not considered to represent value for money when there is a limited budget.</p>
<p>Parking along the B5106 in Gyffin is causing hold-ups</p>	<p>Ask the Local Authority to review this situation.</p>	<p>The Local Authority advised that the issue has been considered in the past and a decision taken not to pursue proposals for further restrictions on parking in the area.</p>
<p>Serious parking issues along Benarth Road, Conwy</p>	<p>Ask the Local Authority to review the parking restrictions with the intention of reducing the road's use by motorhomes.</p>	<p>The Local Authority have considered this situation and advised that the existing restrictions should discourage motorhomes from parking so as to cause an obstruction during the holiday season.</p>

Adroddiad: Pryderon ynghylch Priffyrdd

Mater	Camau gweithredu a awgrymwyd	Ymatebion
<p>Mynegwyd nifer o bryderon difrifol ynghylch y B5279 rhwng Tal-y-cafn a Thy'n-y-groes, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er bod terfynau cyflymder o 40 a 30mya ar hyd y ffordd, dywedwyd na chydymffurfir â'r terfynau. Er enghraifft, dywedodd y trigolion y gall cerbydau fod yn teithio ar gyflymder o tua 60mya drwy'r darn 30mya yn ystod y nos. • Mynegwyd pryderon ynghylch y darn o'r ffordd sydd â therfyn cyflymder o 40mya. Y farn oedd y dylai'r terfyn gael ei ostwng. • Tagfeydd. Maent yn cael eu hachosi gan fod y ffordd yn cael ei defnyddio fwy a bod cerbydau yn cyfarfod â'i gilydd ac nad ydynt yn gallu mynd heibio i'w gilydd yn hawdd yn y darnau cul o'r ffordd. Er enghraifft, dywedodd y trigolion fod carafanau yn cyfarfod â'i gilydd ac yna nad ydynt yn gallu bacio'n ôl. Mae eraill wedi rhoi tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos sut y gall lorïau rwystro'r lôn gyfan, ac maent wedi esbonio wrthyf sut y mae nifer o gerbydau yn gyrru i dramwyfeydd preifat i geisio goresgyn y problemau difrifol o ran y ffordd. • Mae cerbydau yn cael eu gyrru yng nghanol y ffordd. Awgrymwyd y byddai rhoi llinellau gwyn i lawr y canol yn helpu i annog gyrwyr i gadw at yr ochr briodol, er 	<p>Gan Bwyll i ymweld â'r safle</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i roi manylion am y gwaith diweddaraf o ran cyflwyno man pasio ar hyd y ffordd a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny.</p> <p>Er bod adnoddau yn brin iawn yn yr Awdurdod Lleol, rwy'n credu y byddai'n rhesymol i'r Cyngor ystyried a ddylid sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i gyllido astudiaeth ddichonoldeb ynghylch ehangu'r darn cul o'r ffordd. Hefyd, gan gofio bod nifer o gartrefi ar hyd y ffordd, dylid gofyn a allai hyn gynnwys llwybr i gerddwyr.</p> <p>Gofyn i Gonwy a ellid rhoi llinellau gwyn i lawr canol y ffordd, pam mae terfyn cyflymder o 40mya ar ddarn o'r ffordd, yn lle 30mya, ac a oes unrhyw bosibilrwydd o'i ostwng. Hefyd, cadarnhau a ellir ychwanegu arwyddion 'araf' ar y briffordd a gosod arwydd 30mya, sy'n fflachio, wrth ymyl y ffordd.</p> <p>Gofyn a ellir gosod llinellau melyn wrth gyffordd y B5279 a'r B5106.</p>	<p>Gan Bwyll yn ymrwmo i gynnal gwaith gorfodi ar hyd y B5279.</p> <p>Mae Cwnstabl 2979 Medwyn Williams wedi cynnal gwaith penodol yn edrych ar broblemau goryrru ar hyd y B5279 a'r B5106.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol mai nhw biau'r darn o dir ger y briffordd lle gellir lledu rhywfaint o'r ffordd yn lleol, ac y byddan nhw'n cysylltu â thirfeddianwyr cyfagos eraill i gynnal arolwg topograffi er mwyn penderfynu ar union ffiniau'r perchnogaeth tir.</p> <p>Nid oes gan yr Awdurdod Lleol ddigon o arian i ledu rhan gul o'r B5279 yn ei chyfanrwydd. Felly, penderfynwyd y byddai gwario'r arian sydd ar gael ar astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer hyn yn wastraff.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod canllawiau cenedlaethol yn gwahardd darparu llinellau canol ar ffyrdd gwledig llai na 5.5 metr o led.</p> <p>Nododd yr Awdurdod Lleol fod terfynau cyflymder wedi'u gosod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd adolygiad yn 2014, a chafodd terfynau cyflymder eu gostwng i 30mya a 40mya yn unol ag argymhellion yr adolygiad, yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru. Does dim bwriad ar hyn o bryd i newid y terfynau cyflymder yr ardal, ond rwy'n parhau i weithio i newid canllawiau</p>

<p>bod y ffordd yn gul dros ben mewn manau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwelededd wrth y gyffordd â'r B5106. • Mae cerddwyr mewn perygl difrifol wrth gerdded ar hyd y ffordd hon. • Llygredd. 	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol gynnal arolwg llygredd traffig ger yr eiddo ar y B5279, lle mae'r achosion mwyaf o dagfeydd a thraffig ar stop.</p>	<p>Llywodraeth Cymru – gwraidd y broblem yn y bôn.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol y byddan nhw'n ystyried peintio'r gair Araf ar leoliadau er mwyn ategu unrhyw arwyddion rhybudd ar y ffordd.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud nad oes bwriad i gyflwyno arwyddion fflachio 30mya ar y B5279 gan nad yw'r cyfraddau gwrthdrawiadau yn uchel yno.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ystyried cyflwyno llinellau melyn ar gyffordd y B5279 a'r B5106 unwaith y bydd y llwybrau troed arfaethedig wedi'u cyflwyno a'u cwblhau yn y lleoliad fel rhan o'r caniatâd cynllunio a roddwyd i Surf Snowdonia.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ofyn i'r Adran Gwasanaethau Rheoleiddio gynnal arolwg o lygredd traffig ger adeiladau ar hyd y B5279.</p>
<p>Traffig yn ciwio ar yr A470 i droi i'r B5279.</p>	<p>Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad o ddiogelwch y gyffordd hon.</p>	<p>Trwy graffu ar Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y mater hwn y tymor hwn, rwyf wedi canfod y canlynol – er nad yw'r lleoliad yn rhan o gam nesaf Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddiogelwch a Therfynau Cyflymder, bydd y Gweinidog yn parhau i adolygu'r data gwrthdrawiadau lle ceir anafiadau personol a data arall er mwyn penderfynu ar yr angen am welliannau peirianeg neu orfodi yn y dyfodol.</p>
<p>Nid oes cysylltiad â Threfriw yn ystod llifogydd.</p>	<p>Rwyf eisoes yn cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac Ymddiriedolaeth GIG</p>	<p>Ymatebodd Mr Martin Woodford, Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, i mi gan nodi'r canlynol:</p>

	<p>Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ynghylch hyn, yn rhan o'r gwaith rwyf yn ei wneud mewn perthynas â llifogydd yn Nyffryn Conwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Ymddiriedolaeth yn un o aelodau arweiniol Fforwm Cydnerth Lleol y Gogledd sy'n cynnwys partneriaid amlasiantaeth gan gynnwys y gwasanaethau brys a llywodraeth leol. Mae'r Fforwm yn gwneud gwaith cynllunio ar gyfer risgiau gwirioneddol a rhai posib yn ardal y Gogledd, gan gynnwys llifogydd. • Mewn achos o lifogydd, blaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth yw cynnal ei allu ymateb brys i gleifion, ac mae Tîm Ymateb Gweithrediadau Arbenigol ym mhob rhanbarth daearyddol o Gymru. Mae'r gweithwyr parafeddygol hyn wedi'u hyfforddi i ymateb i argyfyngau lleol a difrifol, ac ar gael 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn. Maen nhw'n gweithio gydag asiantaethau eraill ac yn gallu cael eu defnyddio gyda chriwiau Gwylwyr y Glannau neu Dimau Cychod y Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn cyrraedd cleifion mewn ardaloedd wedi'u gorlifo. • Mae'r Ymddiriedolaeth yn gallu galw am gymorth hofrenyddion yr Ambiwylans Awyr a Chwilio ac Achub Gwylwyr y Glannau i gludo parafeddygon adeg llifogydd. • Ar 16 Mawrth 2019, aeth y Fforwm ati i sefydlu Trefn Blaenreoli, Grŵp Cydlynu Tactegol (Arian) a Grŵp Cydlynu Strategol (Aur). Hefyd, roedd gan Wasanaeth Tân ac Achub y Gogledd gwch wrth law rhag ofn bod angen cyrraedd claf a'i gludo i'r ysbyty. <p>Atebodd Mr Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol,</p>
--	---	--

		<p>y Gwasanaeth Tân ac Achub, gyda'r manylion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ar 16 Mawrth 2019, fe wnaeth y Grŵp Cydlynu Tactegol amlasiantaeth nodi ffordd fynediad i gefn yr ardaloedd wedi'u heffeithio, y byddai cerbyd mynediad cul y Gwasanaethau Brys wedi gallu'i defnyddio.• Fel y soniodd yr Ymddiriedolaeth, roedd gan y Gwasanaeth griw cwch wrth gefn yn Llanrwst y gellid fod wedi'u defnyddio i achub pobl o'r adeiladau wedi'u heffeithio neu gludo diffoddwyr tân a'u cyfarpar fel bo'r angen. <p>Cefais yr ymateb canlynol gan yr Arolygydd C Jones, Cynllunio Gweithredol, Heddlu'r Gogledd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn ystod y llifogydd ar 16 Mawrth 2019, nid oedd y pentrefi yr effeithiwyd arnynt wedi'u hynysu'n llwyr rhag y gwasanaethau. Llwyddwyd i gyrraedd y llefydd dan sylw gyda cherbydau 4x4, ac roedd o yn Nhrefriw'n bersonol i arsylwi ar ymatebion ar yr adeg prysuraf, ac yn fodlon y byddai Heddlu'r Gogledd yn gallu cyfeirio adnoddau'n briodol ac ymateb mewn argyfwng.• Fel yr Ymddiriedolaeth, cyfeiriodd at y Fforwm gan esbonio rôl Heddlu'r Gogledd. Mae gan yr Heddlu gyfraniad allweddol ychwanegol yn hyn o beth fel yr asiantaeth gydlynu, sy'n gofyn iddyn nhw reoli cyfarfodydd Cydlynu Tactegol Strategol yr asiantaethau ymatebol a darparu lle i wneud gwaith trefnu a rheoli amlasiantaeth ym Mhencadlys yr Heddlu.• Hefyd, mae Heddlu'r Gogledd yn gallu cydlynu
--	--	--

		<p>adnoddau arbenigol fel cychod sy'n cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth Tân, Gwylwyr y Glannau ac asiantaethau gwirfoddol eraill fel yr RNLI a Chwilio ac Achub, neu awyren/hofrennydd sy'n cael ei weithredu gan yr Heddlu, Gwylwyr y Glannau neu'r Gwasanaeth Ambiwlans.</p> <p>Hefyd, yn dilyn y llifogydd, dywedodd yr Awdurdod Lleol fod Adroddiad S19 Ymchwiliad i Llifogydd wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer Trefriw – llwybrau dianc i mewn ac allan o'r pentref.</p>
Llygredd sŵn y ffordd yn Nhrefriw.	Gofyn am arolwg sŵn yn y pentref.	Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad yw arolwg sŵn yn cael ei ystyried yn un sy'n cynnig gwerth am arian o gofio bod ei chyllidebau dan bwysau.
Llinellau melyn ar y B5106 ar ochr ogleddol Trefriw. Esboniwyd bod y llinell felen yn stopio ychydig cyn y gornel, sy'n golygu bod cerbydau yn cael eu parcio yn y man peryglus hwn.	Gofyn i'r Awdurdod Lleol ystyried ymestyn y llinell felen o amgylch y gornel.	Dywedodd yr Awdurdod Lleol y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a ddatblygwyd ar gyfer ardaloedd gwledig a dwyreiniol y Sir. Os caiff y cynigion eu cyflwyno, rhagwelir y byddant yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y gwanwyn 2020.
Goryrru ar hyd y B5106 yn Nhrefriw a'r perygl y mae hyn yn ei achosi i gerddwyr.	<p>Gofyn i Gan Bwyll ddod i'r pentref yn fwy aml.</p> <p>Gofyn a all yr Awdurdod Lleol ddarparu arwydd i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder o 30mya yng nghanol y pentref.</p>	<p>Mae ymgyrch Gan Bwyll yn ymroi i gynnal gwaith gorfodi ar hyd y B5106.</p> <p>Mae'r Cwnstabl 2979 Medwyn Williams wedi cynnal gwaith penodol ar broblemau goryrru ar hyd y B5279 a'r B5106.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod goleuadau stryd yn y pentref yn atgoffa gyrwyr eu bod mewn ardal 30mya.</p>
Cerddwyr ar Bont y Pair, Betws-y-coed	Rwyf eisoes yn cydweithio â'r rheiny sydd â diddordeb a Chyngor Cymuned Betws-y-coed ynghylch	Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod darparu pont newydd i gerddwyr dros yr afon yn rhy ddrud ac na fyddai'n achos busnes cryf dan feini prawf

	<p>dichonoldeb cyflwyno croesfan newydd i gerddwyr. Wrth symud ymlaen, byddaf yn gofyn i'r Awdurdod Lleol roi diweddariad ar sut y mae'r cynlluniau ynghylch pont o'r fath yn datblygu.</p>	<p>cyllid Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Felly, does dim bwriad i fynd ar ôl y mater hwn ymhellach.</p>
<p>Ffordd Tremorfa (rhwng gwesty a bwyty The Groes Inn a phont Tal-y-cafn). Y terfyn cyflymder yw 60mya, er bod hon yn ffordd brysur ag un lôn sy'n rhoi mynediad i nifer o gartrefi, busnesau amaethyddol a Thŷ Gobaith.</p>	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu'r terfyn cyflymder a chyflwyno arwyddion sy'n rhybuddio gyrwyr i deithio'n araf.</p>	<p>Mae'r terfynau cyflymder yn cael eu gosod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, meddai'r Awdurdod Lleol, ac nad yw'r gyfradd gwrthdrawiadau ar y ffordd yn sail i newid y terfyn cyflymder yn unol â'r canllawiau. Felly, rwy'n parhau i herio Llywodraeth Cymru er mwyn newid y canllawiau hyn.</p> <p>Er bod y materion uchod yn rhwystredig, rydw i'n croesawu'r ffaith y bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried cyflwyno marciau ffyrdd "Araf / Slow" ar leoliadau sy'n cynnwys peryglon annisgwyl, fel troeon cas.</p>
<p>Y B5106 ger gwesty The Groes Inn. Gofynnwyd pam nad yw'r terfyn cyflymder wedi'i ostwng o 60mya ar y darn hwn o'r ffordd. Esboniwyd bod hyn wedi'i adolygu ond nad yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ei newid. Mae hyn yn achosi pryder arbennig i drigolion sy'n byw yng Nghwrt y Groes, Ty'n-y-groes.</p>	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddarparu copi o'r ddau adolygiad diwethaf o'r terfyn cyflymder yn y man hwn, a mynegi pryderon wrth Lywodraeth Cymru ynghylch y ffaith bod y pwyslais yn cael ei roi ar nifer y damweiniau, yn hytrach na'r perygl a damweiniau fu bron â digwydd. Ceisio sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn newid ei pholisi fel nad ydym mwyach yn gorfod aros i ddamweiniau ddigwydd cyn bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.</p>	<p>Bu cynnydd cadarnhaol yn fy ngwaith i weld Llywodraeth Cymru'n newid ei pholisi fel nad oes rhaid disgwyl i ddamweiniau ddigwydd cyn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r terfynau cyflymder. Hefyd, wedi i'r Prif Weinidog ddweud wrthyf y bydd y canllawiau – Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru – yn cael eu hadolygu o haf 2020 ymlaen, rwyf wedi cymryd camau pellach i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar y mater hwn. Er enghraifft, y tymor hwn, fe wnes i graffu ar y Cwnsler Cyffredinol, a gofyn am gyfreithloni'r canllawiau a'r angen i ystyried 12 ffactor unigryw – nid dim ond y niferoedd a'r mathau o</p>

		<p>wrthdrawiadau – fel bod pob Awdurdod Lleol yn gorfod ystyried pob ffactor yn deg.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod adolygiad o'r terfyn cyflymder wedi'i gynnal yn 2014 yn unol â gofynion a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nid oedd yr adolygiad yn argymhell unrhyw newid i'r terfyn cyflymder yn y lleoliad hwn.</p>
Ni chydymffurfir â'r terfyn cyflymder o 30mya ar hyd y B5106 yn Nhal-y-bont.	Gofyn i Gan Bwyll ymweld â'r pentref yn rheolaidd a gofyn i Gyngor Conwy ystyried darparu arwyddion sy'n atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder rhwng Tal-y-bont a Dolgarrog. Cynnwys y posibilrwydd o ddarparu arwydd 30mya symudol sy'n fflachio.	<p>Gan Bwyll wedi ymrwmo i gymryd camau gorfodi ar hyd y B5106.</p> <p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod goleuadau stryd ar y ffordd yn ffordd o atgoffa gyrwyr eu bod mewn ardal neu barth 30mya. Er hynny, credwyd y byddai terfyn cyflymder 20mya y tu allan i Ysgol Dolgarrog yn helpu i reoli cyflymder ar hyd y ffordd.</p>
Wrth ddod at Ye Olde Bull Inn o Dal-y-bont, nid oes arwydd clir sy'n cynghori gyrwyr i droi i'r dde i Rowen.	Gofyn am arwydd clir.	Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ystyried gwella'r arwyddion fel eu bod yn fwy amlwg.
Diffyg strategaeth ar gyfer datblygu yng ngorllewin Dyffryn Conwy. Er enghraifft, nodwyd y gall fod nifer yr ymwelwyr â Syrffio Eryri eisoes yn fwy na dwbl yr amcangyfrif gwreiddiol ac y bydd hyn yn cynyddu ymhellach, yn ôl pob tebyg, pan fydd y gwesty'n agor ac wrth i'r atyniadau a'r busnesau i'r gorllewin o Gonwy ddod yn fwyfwy poblogaidd. Felly, mae'r trigolion angen esboniad ynghylch sut y mae'r seilwaith yn mynd i ddatblygu wrth symud ymlaen i ddarparu ar gyfer y miloedd o gerbydau ychwanegol a fydd yn teithio i'r ardal bob blwyddyn.	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol am gynllun strategol ar gyfer gorllewin y dyffryn a gofyn a ellir rhoi ystyriaeth i ddefnyddio pont Dolgarrog yn y tymor hir.</p> <p>Gofyn i'r Pennaeth Cynllunio esbonio sut y mae Polisi DP/4 yn cael ei ystyried wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio, yn enwedig effaith traffig. Gohebu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ganfod sut y mae'n ceisio mynd i'r afael â'r lefelau uchel o draffig ar draws y Parc Cenedlaethol, yn</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ystyried y cais hwn drwy'i Adran Gwasanaethau Rheoleiddio.</p> <p>Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y bydd yn comisiynu astudiaeth trafndiaeth a pharcio ar gyfer gogledd y Parc.</p>

	enwedig yma yn Aberconwy.	
Wi-Fi ac amllder bysiau Llew Jones	Gofyn a ddylai fod Wi-Fi am ddim ar y bysiau sy'n gwasanaethu gorllewin y dyffryn ac, os felly, a yw'n gweithio. Hefyd, gofyn a oes unrhyw bosibilrwydd o gynyddu nifer y bysiau sy'n gwasanaethu'r ardal, er mwyn helpu i hybu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a defnydd ohoni.	Cefais gyfarfod gyda chynrychiolwyr cwmni Llew Jones yn ystod yr haf i drafod hyn a materion eraill.
Goryrru ar hyd y ffordd o westy The Groes Inn a Chaerhun i Rowen, a'r perygl y mae hyn yn ei achosi i gerddwyr, marchogion a beicwyr. Er enghraifft, dywedodd un trigolyn ei bod wedi cael ei thaflu oddi ar ei cheffyl ger Pontwgan.	Gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu'r terfyn cyflymder ar y ffordd hyn a darparu arwyddion yn rhybuddio gyrwyr fod marchogion yn bresennol, o leiaf. Cael eglurder gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch a yw'n cofnodi damweiniau fu bron â digwydd.	Dywedodd Heddlu'r Gogledd fod eu hystafell reoli yn cofnodi achosion o ddamwain fu bron a digwydd fel 'Traffic Other'. Ar ben hynny, os oes cofnod o'r cerbyd sy'n peri tramgwydd, yna byddai aelod o'r tîm plismona lleol yn dilyn y mater. Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod terfynau cyflymder yn cael eu gosod yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac nad yw'r gyfradd gwrthdrawiadau yn gofyn am newid y terfyn cyflymder. Tra fy mod i'n herio Llywodraeth Cymru ar y canllawiau hyn, rwy'n falch fod yr Awdurdod Lleol wedi cytuno i osod arwyddion rhybudd ceffylau yn y lleoliad priodol pe bai ceffylau ar y ffordd yn ddigon aml i fodloni'r meini prawf defnyddio arwyddion.
Yr ysgol newydd yn Nolgarrog.	Gofyn am esboniad ynghylch y mesur traffig a fydd yn helpu i hwyluso symudiad cerbydau a diogelu unigolion y tu allan i'r ysgol.	Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud fod y mesurau traffig yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • terfyn cyflymder 20mya • mesurau 'horizontal deflection' i leihau cyflymder o boptu'r ysgol twmpath (raised table) ar groesfan yr ysgol
Y sefyllfa o ran traffig ar Bont Fawr. Er enghraifft, dywedodd person	Rwyf wedi bod yn cydweithio â'r Awdurdod	Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu cynigion i wella

<p>busnes lleol fod 50% o'r gwesteion yn rhoi sylwadau negyddol ynghylch y groesfan hanesyddol.</p>	<p>Lleol ynghylch y mater hwn ers sawl mis, ac rwy'n disgwyl y diweddariad nesaf ym mis Awst 2019.</p>	<p>arwyddion a marciau ffordd Pont Fawr Llanrwst.</p> <p>Hefyd, llwyddais i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i gydweithio ar y Bont Fawr, yn enwedig trefnu cyfarfod i drafod y posibilrwydd o gyflwyno ateb rheoli traffig amgen ar yr A470.</p>
<p>Y ffyrdd yn Llanrhychwyn a'r perygl a achosir gan gerbydau i gerddwyr a marchogion.</p>	<p>Gofyn am arwydd yn rhybuddio ynghylch marchogion a cherddwyr wrth gyffordd y ffordd sy'n arwain at Lanrhychwyn o Gastell Gwydir.</p> <p>Hefyd, gofyn a all yr Awdurdod Lleol osod arwyddion wrth gyffyrdd yn nodi'r lled mwyaf i gerbydau sy'n teithio ar hyd y llwybr.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i ystyried cyflwyno arwyddion priodol.</p>
<p>Llygredd sŵn o'r B5106 yn Nhy'n-y-groes</p>	<p>Gofyn am arolwg sŵn ym Maes Rhun.</p>	<p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol nad yw arolwg sŵn yn cynnig gwerth am arian pan fo cyllidebau dan bwysau.</p>
<p>Parcio ceir ar hyd y B5106 yng Nghyffin yn achosi tagfeydd.</p>	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu'r sefyllfa hon.</p>	<p>Dywedodd yr Awdurdod Lleol fod y mater wedi'i drafod yn y gorffennol, a'i fod wedi penderfynu peidio dilyn cynigion i gyflwyno rhagor o waharddiadau parcio yn yr ardal.</p>
<p>Problemau difrifol o ran parcio ar hyd Ffordd Benarth, Conwy.</p>	<p>Gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu'r cyfyngiadau ar barcio, gyda'r bwriad o leihau nifer y cartrefi modur sy'n defnyddio'r ffordd.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried y sefyllfa hon ac yn dweud y dylai'r gwaharddiadau cyfredol atal cartrefi modur rhag parcio a chreu rhwystr yn ystod y tymor gwyliau.</p>